# Glas

Rhif 208-209
Mehefin 2025
Gorffennaf 2025
Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

## Y Garreg Ddiddos

Am dro i Gwm Pennant-Lliw heno, a sbio ar Garreg Diddos islaw Castell Carndochan. Gweler y print hwn gan E. Pugh (Tachwedd 1814). **Iwan Williams**




## Y trysor blewog

Gog… yn mwynhau ei damaid blewog ar Fynydd Hiraethog. Lindysen yfwr meddai Dave Parry - wylun y gogledd yn bosib hefyd. *"Would he turn around?"* meddai Dave *"would he heckers like!"* (23 Ebrill 2025)



## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Glas


Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

## Rhyfeddod cyrion Cymru

TEGEIRIAN NYTH ADERYN *Neottia nidus-avis* - Cilygroeslwyd - 19eg o Fai, 2025.

Planhigyn lluosflwydd, sy'n ymledu trwy risomau byrion. Tyf fel arfer mewn hwmws dwfn, llaith coedwigoedd *Fagus sylvatica* [ffawydd] ar briddoedd calchog. Yn llai aml mae'n tyfu mewn coetir collddail cymysg, coedlannau *Corylus avellana* [cyll] aeddfed, ar briddoedd sy'n deillio o galchfaen a chlai a thywod cyfoethog o ran basau. Mae *N. nidus-avis* yn gwbl ddibynnol ar ffwng mycorisaidd. **Iwan Williams**





## Cleren y Fan



Ar ffenest y fan, Llanfair Dyffryn Clwyd - 19eg o Fai, 2025. **Iwan Williams**

Cleren Fai *Ephemera danica* mae'n debyg (tri chynffon.... oedd yr esgyll wedi eu cuddio tu ôl i'r corff ar yr ochr uchaf?)



# Dirgelion y Sisli Bêr

Rydym wedi derbyn ymholiad gan ganolfan leol am enw Cymraeg am *Sweet Cicely*. Sgynnon ni ddim syniad, oes rhywun yn gallu helpu o.g.y.dd? Wedi edrych ar Porth Termau. **Ruth**




Creithig bêr sydd gan PlantNet. **Dilwyn Williams**

Cegiden wen hefyd **Golygydd**

**Nodyn Golygyddol (DB) : Mae hyn yn dipyn o ddirgelwch. Mae o'n tyfu yn fy ngardd (gwreiddio'n ddwfn ac ail dyfu'n gyflym… dipyn o niwsans i ddweud y gwir). Arogl hyfryd o anisid ond erioed wedi llwyddo i drosglwyddo hwnnw fel blas ar fwyd. Yn ôl y ffynonellau sydd ar gael i mi, un cofnod lled-hanesyddol ohoni yng Nghymru a welaf, gan Peter Benoit yn *'A Contribution to a Flora of Merioneth'*** ($2^{ail}$ argraffiad: Benoit P. a Richards R. 1963) **:**

> ∗**{seren yn dynodi planhigyn wedi ei gyflwyno I'r ardal}** *Myrrhis odorata (L.) Scop. Sweet Cicely L. Occasional nr. Cottages. Trawsfynydd Stn., R.A.R.C. Bryn Banon, Bala. Nr. Bala Junction, Miss V. Gordon. Efail Fach, Cross Foxes Inn (destroyed?), and Tai Newyddion, Dolgellau. Btwn. Kings and Arthog, Miss V.G.*

**Dwi ddim yn ei chofio ers talwm. Dwi ddim yn cofio ei phlannu yma yn Waunfawr chwaith (yma ers 1984).** *Myrrhis odorata* **yw ei enw gwyddonol.**

**Yn ôl Blamey** *[An Illustrated Flora of Britain and Northern Europe, Blamey, M. (1989)]*:

> *Primarily a mountain plant in its native habitats. The whole plant is very aromatic and the roots and young fruits in particular are used as a low calory sweetener. B.$^{=\ ???}$ N Wales, N England, S Scotland, rare or casual elsewhere.*

**Yn ôl Rougement** *[A Field Guide to the Crops of Britain and Europe, Collins (1989)]*

> *It was formerly cultivated in kitchen gardens but is now obsolete.*

**Dywed Mabberley** *[Mabberley, D.J. (2008) Mabberley's Plant Book, CUP]*

> *Formerly a potherb, probably widely introduced for strewing on church floors in mediaeval GB, home remedy & flavouring brandy (trans-anethole the main sweet constituent, leaves formerly used to polish oak paneling.*

**Rhyfeddol mor amrywiol a gwasgaredig yw'r cofnodion o'i rinweddau: dyma Uphhof** *[Uphof, J C Th (1959), Dictionary of Economic Plants (Weinheim)]*

> *Used as a home medicine for cleansing the blood, expectorant. It is supposed that it increases the milk production of cattle. Roots and fruits are used for flavouring brandy. It is occasionally cultivated.*

# Cymharu dau

**Cymharu dau: y gylfinir ar coeg-gylfinir**

Dau lun yn cymharu patrwm pen y gylfinir (Dys Griffiths) a'r coeg-gylfinir (Eirlys Edwards Behi). Pig byrrach hefyd ar y 'coeg'. Mae'n dal i fod yn haws talu sylw i'r galwad ('y 7-chwibannydd') i spotio'r ail. Mis mai ydi'r amser i weld a chlywed y coeg-gylfinirod yng Nghymru ar eu taith mudol i'r gogledd.





# Penwythnos ym Mhensychnant

Dyma gipolwg ar waith cofnodi gwyfynod yn ystod un penwythnos.

Cafodd y tîm flas ar safle naturiol arbennig. Ni fedrwn ond eich gwahodd i edrych ar y rhestr o ddigwyddiadau mae Canolfan Pensychnant yn eu cynnig trwy'r flwyddyn.

Bruce Hurst



Duncan Brown



Julian Thompson

Bruce Hurst



## Gwyfynod Gŵyl Pensychnant




Treuliodd dîm Llên Natur (Cymdeithas Edward Llwyd) a gwahanol sefydliadau eraill benwythnos yng Nghanolfan Cadwraeth a Gwarchodaeth Natur ar gyfer **Ffair Bioamrywiaeth.** Bu'r ffair hon, gyda stondinau gan wahanol grwpiau cofnodi a chadwraeth bywyd gwyllt lleol a chenedlaethol, yn cynrychioli ystod lawn o rywogaethau Prydeinig, o'r microbau i'r mamaliaid. Bu hyn yn gyfle i ddathlu bioamrywiaeth Pensychnant.

**Cafodd weithgareddau amrywiol i oedolion a theuluoedd eu cynnal :**

- **Bioblitz** - gan arddangos a thrafod cannoedd o rywogaethau, yn enwedig gwyfynod (cyfleoedd da i dynnu lluniau)
- Sawl **saffari bywyd gwyllt** yn y meysydd, dan arweiniad arbenigwyr rhagorol yn eu meysydd.
- Arddangosfeydd a chyngor am adnabod a gwarchod bywyd gwyllt
- Gweld y byd gwyllt dan y meicrosgop!
- Gemau a chrefftau i blant



## Cip ar waith y gwyfynwr


**Cip ar waith y gwyfynwr o fri Bruce Hurst, sef Cofnodydd Gwyfynod Sir Gaernarfon** ■ 'Dyrannais genitalia y tortrics o'ch trapio cartref diwethaf, wythnosau yn ôl (trap DB yn y Waunfawr). ***Epiblema scutulana*** (gwryw) ydi'o, ar sail y genitalia.
'Dw i'n cofio i ti sganio'r gwyfyn ar *Obsidentify* ac roedd yn dangos *E. scutulana* neu un o'i gynghreiriaid *Epiblema rh*...



"Llwyddais i'w adnnabod o'r genitalia ond dydi'r llun ddim wedi gweithio mewn gwirionedd oherwydd i mi ddefnyddio braidd gormod o Methylene Blue (lliw arbennig i amlygu nodweddion paratoad meicrosgopig)". **Bruce Hurst**




Gweler y gwaith dosbarthu ar y dudalen nesaf















**1 Ermin Gwyn** [ella E. Llwydfelyn]
**2 Brychan Cyffredin**
**3 Ermin Meinweog**
**4 Gem Fforch Arian**
**5 Melyn y Drain**
**6** [ansicrwydd]
**7 Gwalchwyfyn y Poplys**
**8 Gwalchwyfyn y Poplys**
**9 Carpiog Cyll**
**10** [ansicrwydd]
**11** [ansicrwydd]
**12** [ansicrwydd]
**13 Brychan Arian**
**14 Llinell Wen y Rhedyn**
**15 Pwtyn** [ansicrwydd] **Deuresog**
**16 Brychan Cleisiog Cyffredin**
**17** [ansicrwydd]
**18 Gem Fforch Arian**
**19 Trwynog y Rhos**
**20 Esgynnwr Mai**
**21 Brithyn Godreog**
**22 Blaen Brigyn**
**23** [ansicrwydd]
**24 Celwm Cariad**
**25** [ansicrwydd]
**26 Adain Ddeifiog**
**27 Fflamysgwydd**
**28** [ansicrwydd]
**29** [ansicrwydd]
**30 Carpiog y Cyll**
**31 Brychan y Dŵr**
**32 Pwtyn o Rhyw Fath**
**33** [ansicrwydd]
**34 Gwyfyn y Gwernos** [ansicrwydd]
**35 Esgynnwr Mai**
**36 Brychan Cleisiog Cyffredin**
**37 Pwtyn**
**38 Brychan Cleisiog Cyffredin**
**39** [ansicrwydd]
**40** [ansicrwydd]
**41 Brychan Arian**
**42 Esgynnwr Mai**
**43 Pwtyn Deuresog**
**44 Brychan y Dŵr**
**45 Esgynnwr Mai**

# Mellt 'rwan'


**Taith y terfysg ynghanol gwres mawr** - 16:57
5yh 12/05/2025 **Iwan Williams**





**Cenllysg a tharannau uwchben yn Waunfawr am 17.25 Croes oren yn dangos bod 25 munud wedi mynd heibio rhwng taranu tua Bryncir a tharannu yn Waunfawr! DB**

Mae'r llinell las dywyll yn dangos 18:10 fel amser y terfysg yn Waunfawr



Mae **gorsaf dywydd** yn gyfleuster, naill ai ar y tir neu'r môr, gydag offer a chyfarpar ar gyfer mesur amodau atmosfferig i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rhagolygon y tywydd ac i astudio'r tywydd a'r hinsawdd. Mae'r mesuriadau a gymerir yn cynnwys tymheredd, gwasgedd atmosfferig, lleithder, cyflymder y gwynt, cyfeiriad y gwynt, a mesuriadau dyddodiad.

Mae mesuriadau gwynt yn cael eu cymryd gyda chyn lleied o rwystrau eraill o'u cwmpas â phosibl, tra bod mesuriadau tymheredd a lleithder yn cael eu cadw'n rhydd rhag ymbelydredd solar uniongyrchol, neu arwahanrwydd. Cymerir arsylwadau â llaw o leiaf unwaith y dydd, tra cymerir mesuriadau awtomataidd o leiaf unwaith yr awr. **Wikipedia**






**Hel am y storm**
Y storm ■ Fe ddaw eto haul dros fryn! Heddiw, Nefyn
[12/5/2025] **Llinos Griffin**

# Mesur effeithiau'r sychder Mai

■ Llyn Celyn - gostyngiad o fewn wythnos. Mae yna ychydig o lawiad wedi bod heddiw, a mwy i ddod gobeithio - 24ain o Fai, 2025. **Iwan Williams**








■ Cofia bod nhw yn gadael dŵr allan yn ddyddiol i greu trydan ac i'r rhai sydd ar y cychod. **Tom Lew**

■ Ydynt - roedd yna lif go dda yn Afon Tryweryn heddiw. Gweler y llif yng Nghored y Bala - mae'r lefelau gwahanol yn dangos bod y llifddorau yn agor a chau . **Iwan Williams**





## Tywydd a Hinsawdd

Gweler hefyd Tywyddiadur Llên Natur ar Wefan Llên Natur.

# Fideo gan Eirlys

## Llwyd y gwrych - ei ymddygiad carwriaethol rhyfeddol !

■ Ymddygiad cyn-paru diddorol iawn gan Eirlys Edwards Behi. Yr iar yn sefyll - y ceiliog yn gyndyn?




Mae'r fideo cyflawn yn 1.29 munud o hyd. Oedd o yn cymeryd ei amser a hitha yn amyneddgar. Y fo yn pigo be ma ceiliog arall wedi adael. Mae hi yn 'gollwng' olion y ceiliog a fy o'r blaen, a wedyn mae'r ddau yma yn paru reit ar y diwedd, ia, mor gyflym a hyna.

**Fideo : (y ddolen)** **EE-B**

Mae y ceiliog gyda'r adar yma yn cael gwared o hoelion ceiliogod arall. Mae eu paru yn dipyn mwy cymleth i gymharu â robin etc. **Karwen Lazarus**

## Dyma erthygl gan Keith Broomfield (trwy law John Jones) : (y ddolen)

> *"This fascinating behaviour was only discovered in the 1990s and highlights how much we still have to learn about nature, even right on our own doorstep."*

Mor wych yw bod Eirlys wedi llwyddo i gofnodi'r ymddygiad mewn fideo..... a KB ddim!!

Ar ôl meddwl ychydig am fideo KB...

> *'In the scenario of one female and two males, the hen dunnock plays a very clever strategy. She will mate with one male, but then when the other male comes along he will peck at her rear which causes her to eject the sperm from the first suitor, before he too then mates with her. What all this means is that the two males think they are the fathers and will both therefore help to feed the young in the nest, dramatically increasing the chances of the brood being successfully raised.'*

**… pam nad ydy'r ystryw hwn ddim wedi esblygu mewn adar eraill (ella'i fod o ond Eirlys ddim wedi ffilmio fo eto!!!)?**


Mae Llwyd y Gwrych, *Prunella modularis*, yn gyffredin trwy'r rhan fwyaf o Ewrop a rhan o Asia. Hwn yw'r unig aelod o'r teulu *Prunellidae* sydd i'w gael ar dir isel - mae'r gweddill yn adar mynydd. Mae tua'r un faint a Robin Goch, 13.5–14 cm o hyd.



Mae bywyd rhywiol yr aderyn hwn yn gymhleth a diddorol. Gall yr iar baru gyda dau geiliog neu hyd yn oed fwy na dau, ac mae'r un peth yn wir am y ceiliogod. Gall fod yn aderyn mudol mewn rhai gwledydd lle ceir gaeafau oer, ond yng Nghymru mae'n aros trwy'r flwyddyn.


**Ar Wicipedia**


# Labelu a Lliwio: Gwalch-Wyfyn Helyglys




abdomen ___
coes flaen ___
coes ganol ___
thorax ___
llygad ___
coes gefn ___
teimlydd / antena ___
adain flaen ___

Glas





**GWYBODAETH:** Gwyfyn sy'n perthyn i urdd y Lepidoptera yw gwalchwyfyn yr helyglys, sy'n enw gwrywaidd; yr enw lluosog ydy gwalchwyfynod yr helyglys; yr enw Saesneg yw *Elephant Hawk-moth*, a'r enw gwyddonol yw *Deilephila elpenor* **(Gweler Wicipedia)**